**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 10 Mai 2019 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| --- | --- | --- |
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L V Walton | | |

**Swyddogion**

| | |
| --- | --- |
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Lyndsay Thomas | Prif Gyfreithiwr |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L G Thomas

---

## 5 Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 6 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2019 yn gofnod cywir.

## 7 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**8 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – Perchennog y Cerbyd Hacni - MN.**

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas ag MN.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn  briodol.

Esboniodd MW, cyfreithiwr sy'n gweithio ar ran MN, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau. Rhoddodd MW sail apelio i'r cyfreithiwr a oedd yn gweithio ar ran y pwyllgor, a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl i aelodau'r pwyllgor.

**Penderfynwyd** y byddai MN yn derbyn llythyr rhybudd cryf o ran ymddygiad yn y dyfodol.

**9 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat - SS.**

Esboniodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch fod SS wedi rhoi gwybod i'r awdurdod nad oedd yn gallu mynd i'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau gwaith.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas ag SS.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais SS am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat am gyfnod o flwyddyn.

**10 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat – MJA.**

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas ag MJA.

Esboniodd Mr W, cyfreithiwr a oedd yn gweithio ar ran MJA, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r digwyddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** y byddai MJA yn derbyn llythyr rhybudd o ran ymddygiad yn y dyfodol.

## 11 Y diweddaraf am y camau gweithredu uniongyrchol

Nodwyd y camau gweithredu a gymerwyd gan swyddogion.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am